



Canllawiau ynghylch Gwneud Cais i'r Gronfa Ariannol wrth Gefn (FCF) 2021/22

Bydd angen i chi lenwi ffurflen gais ar gyfer pob blwyddyn o astudio. Os ydych wedi cael cymorth o'r blaen, nid yw'n gwarantu cymorth yn y blynyddoedd dilynol.

Mae'r arian a ddyrennir i'r Gronfa yn gyfyngedig a chynghorir ceisiadau cynnar. Caiff ceisiadau eu prosesu ar sail y cyntaf i'r felin, ac fe'u hasesir yn ôl anghenion unigol ac amgylchiadau ariannol. Os oes unrhyw rai o'ch amgylchiadau'n newid, rhaid i chi roi gwybod i'r tîm cyllid myfyrwyr ar unwaith.

Gallai'r canllawiau hyn newid pan gyhoeddir canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Dyraniadau FCF ar gyfer 2021/22.

Rydych yn gallu gwneud cais i'r Gronfa Ariannol wrth Gefn (FCF) os:

- Ydych yn 16 oed neu'n hŷn ar 31 Awst 2021
- Ydych wedi cofrestru ar gwrs Addysg Bellach llawn-amser neu ran-amser
- Ydych yn preswyllo fel arfer yn y DU, yr AEE, y Swistir a Gibraltar a'ch bod wedi bod am o leiaf dair blynedd yn union cyn dechrau'r cwrs at ddibenion heblaw derbyn addysg llawn amser

Dalier sylw: Os oes gennych hawl i wneud cais am LCA neu GDLIC mae'n rhaid eich bod wedi gwneud cais am y gronfa honno cyn y gellir dyfarnu unrhyw grant ar gyfer FCF. Os ydych chi'n cael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru, byddwch dim ond gymwys am gyllid o'r Gronfa Ariannol wrth Gefn tuag at gostau gofal plant neu gludiant

Cwblhau'r cais

- Llenwch yr holl fanylion ym mhob adran lle bo hynny'n berthnasol.
- Rhowch enw a lefel llawn eich cwrs er mwyn i ni allu asesu a ydych yn gymwys i dderbyn cymorth tuag at gost llyfrau cwrs hanfodol, offer, ffioedd gweithdai neu DBS.
- Os bydd eich cais yn llwyddiannus, caiff y taliadau eu talu'n uniongyrchol i chi drwy BACS. Rhowch eich manylion llawn os gwelwch yn dda, os yw eich manylion yn newid, rhowch wybod i ni.
- Dim ond os nad ydych yn gymwys i gael LCA/WGLG y mae angen cwblhau incwm aelwydydd, a/neu os ydych wedi gofyn am brydau am ddim ond nad ydych wedi cael prydau ysgol am ddim o'r blaen. Sicrhewch fod pob aelod o'r cartref wedi'i restru ac y darperir dogfennaeth ategol yn unol â'r cais.
- Gofalwch eich bod yn darllen y datganiad a'r gosodiad diogelu data.

Cais am gymorth

Mae'r Gronfa yn grant dewisol sy'n galluogi'r Coleg i'ch cynorthwyo gyda **chyfraniad** posibl tuag at y costau canlynol sy'n gysylltiedig â'ch cwrs. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd gofyn i chi wneud cyfraniad.

▪ Llyfrau, cit, gwisgoedd, offer, ffioedd gweithdai neu DBS

Os yw eich cwrs yn ei gwneud yn ofynnol i chi brynu neu dalu am unrhyw rai o'r uchod, efallai y byddwch yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol tuag at y gost. Mae hyn yn berthnasol i gostau hanfodol yn unig fel y'u diffinnir gan adran y cwrs. Nodwch os oes angen prynu offer hanfodol cyn i chi dderbyn gwobr **cadwch eich derbynebau**.

▪ Cludiant

Os ydych chi'n 16-18 oed ac wedi cofrestru ar gwrs amser llawn, mae'r defnydd o fws y coleg yn rhad ac am ddim. Os ydych chi dros 19 oed neu wedi ymrestru ar gwrs rhan amser, codir tâl am ddefnyddio'r bws coleg. Gallwch wneud cais am gymorth ariannol tuag at y gost. Bydd FCF yn talu hyd at 75% o'r gost hon.

Os oes angen cymorth arnoch tuag at gludiant ar wahân i fws y Coleg, bydd ystyriaethau'n cael eu gwneud ar sail unigol.

▪ Cludiant anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Os ydych chi dros 19 oed a/neu'n byw o fewn radiws o 3 milltir i'r coleg, codir tâl am gludiant ADY. Gallwch wneud cais am gymorth ariannol; Fodd bynnag, fel arfer byddai gofyn i chi gyfrannu tuag at y gost. Cysylltwch ag Emma Jones, y Rheolwr Cymorth Dysgu a Chydraddoldeb ar 01437 753304 i drafod eich gofynion o ran trafndiaeth.

▪ Gofal Plant

Dim ond os yw eich plentyn gyda gwarchodwr plant neu feithrinfa gofrestredig fel y rhestrwyd gyda Chyngor Sir Penfro y bydd y Gronfa Ariannol wrth Gefn yn talu cyfraniad dyddiol tuag at gostau gofal plant.

Mae gan y Coleg ei gyfleusterau ei hun – Meithrinfa Ddydd Bright Start, ffoniwch 01437 753153 i gael gwybodaeth neu i archebu lle. *DS Os ydych chi'n byw o fewn radiws o 10 milltir i Hwlfordd, fel arfer byddai gofyn i chi roi eich plentyn/plant ym Meithrinfa Ddydd Bright Start y Coleg.*

Mae talu gofal plant yn dibynnu'n llwyr ar eich presenoldeb ar eich cwrs. Efallai y bydd gofyn i chi wneud cyfraniad tuag at eich costau gofal plant.

▪ Costau prydau bwyd

Bydd cymorth prydau bwyd i'w ddefnyddio yn ffreutur y Coleg a Starbucks yn cael ei asesu ar sail unigol ac mae'n amodol ar gymhwysedd (fel arfer dim ond ar gyfer myfyrwyr 16-18 oed sydd eisoes wedi derbyn prydau ysgol am ddim).

Gall cymorth pellach tuag at ffioedd arholiadau, taliadau argyfwng/caledi a chostau eraill sy'n gysylltiedig â'r cwrs fel lleoliadau gwaith fod ar gael hefyd. Nodwch na all y Gronfa Ariannol wrth Gefn helpu gyda ffioedd cyrsiau.

Sut fydda i'n cael gwybod a yw fy nghais yn llwyddiannus?

Byddwch yn derbyn llythyr yn cadarnhau a yw eich cais wedi bod yn llwyddiannus gyda rhagor o fanylion am sut i hawlio unrhyw ddyfarniad a wnaed.

Beth os yw fy nghais yn aflwyddiannus?

Byddwch yn derbyn llythyr yn eich hysbysu os bydd eich cais yn aflwyddiannus. Os hoffech apelio, gallwch wneud hynny drwy gyflwyno eich achos yn ysgrifenedig i'r Rheolwr Cyllid. Dylai apeliadau gynnwys eich rhesymau dros apelio ac unrhyw dystiolaeth ychwanegol y gallwch ei darparu.

Cymorth Ariannol Ychwanegol ar gael i Fyfyrwyr

Yn amodol ar fodloni'r meini prawf cymhwysedd, mae'n bosibl y bydd gennych hawl i wneud cais am y cymorth ariannol canlynol i fyfyrwyr. Bydd unrhyw ddyfarniad a dderbyniwch yn cael ei ystyried wrth asesu eich cais FCF.

Lwfans Cynhalieth Addysg (LCA)

Cronfa yw hon ar gyfer myfyrwyr llawn-amser 16, 17 neu 18 oed sy'n astudio mewn Addysg Bellach (Nid yw cyrsiau Addysg Uwch, cyrsiau Hyfforddeiaeth a Phrentisiaethau yn gymwys). Mae cymhwyster yn dibynnu ar incwm y cartref fel a ganlyn:

Incwm y cartref	Hawl
Hyd at £20,817 y flwyddyn (os mai chi yw'r unig berson ifanc sy'n astudio yn y cartref)	£30 yr wythnos
Hyd at £23,077 y flwyddyn (os oes pobl ifanc eraill yn eich cartref sy'n gymwys i gael budd-dal plant)	£30 yr wythnos

Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (GDLIC)

Mae hwn yn grant sy'n seiliedig ar brawf modd ar gyfer myfyrwyr Addysg Bellach sy'n 19 oed neu'n hŷn ac sydd fel arfer yn byw yng Nghymru. Mae'r gronfa hon yn dibynnu ar incwm ac oriau astudio'r cartref.

Incwm y cartref	Hawl	
	Astudio cwrs rhan-amser (rhwng 275 a 499 awr)	Astudio cwrs llawn-amser (500 awr neu ragor)
£0 - £6,120	£750	£1,500
£6,121 - £12,235	£450	£750
£12,236 - £18,370	£300	£450
£18,371 ac uwch	£0	£0

Gellir cael rhagor o wybodaeth yn www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk